**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Tachwedd 2016

Annwyl Huw

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 21 Hydref yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau ynghylch Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) ("y Bil"). Rwyf wedi ymdrin â'r pwyntiau a godwyd isod:

- **Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth SDLT ac LBTT**

Mae Atodiad 1 i'r llythyr hwn yn cynnwys tabl yn nodi pwerau is-ddeddfwriaeth mewn deddfwriaeth SDLT ac LBTT. Mae'r pwerau hyn wedi'u nodi ar y sail mai'r un yw cwmpas y pwerau â chwmpas y pwerau yn y Bil neu'n debyg iawn iddo.

Dylid darllen y tabl ochr yn ochr â darpariaethau'r DU a'r Alban i sicrhau dealltwriaeth gyflawn o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau. Dylwn nodi hefyd nad yw'r tabl yn cyfeirio at y pwerau hynny mewn deddfwriaeth SDLT neu LBTT nad ydynt yn cael eu hatgynhyrchu yn y Bil hwn.

Rwyf wedi penderfynu ar y weithdrefn briodol ar gyfer is-ddeddfwriaeth trwy ystyried a allai'r rheoliadau gael effaith ar atebolrwydd treth unigolyn. Pan fo'r rheoliadau'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i swm y dreth y mae prynwyr yn gorfod ei dalu (h.y. trwy orfodi neu gynyddu swm y dreth a godir), maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn gadarnhaol dros dro. Mae pwerau i wneud rheoliadau ynghylch materion nad ydynt, i'r gwrthwyneb, yn effeithio yn sylweddol ar y dreth a godir ac sy'n dechnegol neu'n fecanyddol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rydym o'r farn bod nifer y pwerau mewn deddfwriaeth SDLT yn llai gan fod Llywodraeth y DU'n tueddu i ddibynnu ar y Bil Cyllid blynyddol i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth SDLT, a'r pŵer eang a roddir gan adran 109 o Ddeddf Cyllid 2003, sy'n galluogi Gweinidogion Trysorlys y DU i amrywio unrhyw ran o ddeddfwriaeth SDLT, ac eithrio cyfraddau a bandiau trethi.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- **Dull o benderfynu a ddylai rheoliadau a wneir o dan adran 76(1) a 76(2) fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol neu negyddol**

Gan fod cynnwys y Bil hwn yn destun gwaith craffu manwl, nid oes angen fel arfer i'r rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan y cânt eu cyfyngu i wneud darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, atodol, trosiannol, darfodol neu arbed sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn gweithio'n iawn.

Er hynny, mae'n bosibl mai effaith y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon fyddai newid atebolrwydd trethi unigolyn. Er mwyn cadw cysondeb â'r dull gweithredu ehangach ar draws y Bil, rhagnodir y weithdrefn gadarnhaol yn yr achosion hyn.

Bydd rhaid ystyried yn ofalus y cwestiwn a gaiff rheoliadau penodol yr effaith hon, ac a fyddant felly yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, fesul achos, gan gymryd i ystyriaeth diben y rheoliadau a'u heffaith gyffredinol. Am y rheswm hwn, nid oes modd rhoi rhestr gynhwysfawr o achosion lle byddai rheoliadau bob amser yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ond rwyf wedi ymrwymo i esbonio sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r penderfyniad hwn yn y Memorandwm Esboniadol sydd ynghlwm wrth unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon.

Rwyf yn gobeithio bod yr esboniadau hyn yn ddefnyddiol. Byddwn yn falch o ddarparu unrhyw wybodaeth bellach am y Bil a sut y bydd yn gweithredu os byddai hyn yn ddefnyddiol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir

Mark

**Mark Drakeford AC / AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

CC: Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid